

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Dadansoddiad o'r Ymgynghoriadau ar Ganllawiau Ychwanegol Cwricwlwm i Gymru

Ebrill 2022



Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron yr adroddiad:

Llorenc O'Prey

Ebrill 2022

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: 2–4 Park Street, Bristol, BS1 5HS
- Swyddfa Gogledd Lloegr: Milburn House, Dean Street, Newcastle, NE1 1LF
- Swyddfa Llundain: 52 Cecile Park, Crouch End, London, N8 9AS

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01545 571711
E-bost: wavehill@wavehill.com
Twitter: @wavehilltweets
Gwefan: www.wavehill.com

Dylai unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r adroddiad hwn gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at Llorenc O'Prey (llorenc.oprey@wavehill.com)

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau ymatebwyr mewn perthynas o ganllawiau a dogfennau drafft sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru. Er mwyn cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion i ymgysylltu ag elfennau o'r cwricwlwm newydd, mae ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi bod yn cyd-gynllunio'r canllawiau a'r dogfennau drafft canlynol:

- [Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#)

Er mwyn deall pa mor ddefnyddiol a chlr oedd y dogfennau hyn, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn a safbwyntiau'r gymuned addysgol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar bob elfen o'r canllawiau a'r dogfennau. Mae'r adborth a'r safbwyntiau wedi llywio datblygiad parhaus y dogfennau a'r canllawiau, cyn i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno i leoliadau ac ysgolion ym mis Medi 2022.

Caiff barn yr ymatebwyr ar bob elfen o'r canllawiau drafft ei harchwilio yn yr adroddiad yma. Mae hwn yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion, ac yna ceir archwiliad manwl o'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr.

2 Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Roedd yr ymgynghoriadau yn gofyn am farn a safbwyntiau ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach ar y canllawiau drafft ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

2.1 Crynodeb Gweithredol

Ymgynghorwyd â'r ymatebwyr ar y canllawiau drafft ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bwriad y Canllawiau drafft ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yw cynorthwyo'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliadau ac ysgolion ledled Cymru. Rhoddodd cyfanswm o 127 o ymatebwyr eu barn ar y canllawiau drafft. Gwnaeth 28 o ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach gymryd rhan mewn cyfres o weithdai a oedd yn archwilio eu barn yn fanylach.

Cafwyd nifer sylweddol o ymatebion ymgyrchu neu ymatebion wedi'u cydlynu i'r ymgynghoriad. At hynny, roedd gwahaniaethau yn y teimladau cyffredinol a fynegwyd gan ymatebwyr ar draws gwahanol ddulliau ymgysylltu. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod gwahaniaethau ym marn y rhai sy'n ymateb i'r ymgynghoriad, o gymharu ag ymarferwyr a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

Canfyddiadau

Yn gyffredinol, roedd llawer o ymatebwyr yn ystyried bod y canllawiau drafft yn fan cychwyn gwerthfawr ar gyfer ymwneud â'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg newydd. Roedd cefnogaeth gyffredinol i deimlad a chyfeiriad cyffredinol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Cwricwlwm i Gymru yn ei gyfanrwydd. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymatebwyr yn aml yn cyfeirio at bwysigrwydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys cynorthwyo datblygiad moesol ac ysbrydol y dysgwyr.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at amrywiaeth o feysydd lle'r oeddent yn teimlo bod y canllawiau drafft yn ddefnyddiol. Roedd y rhain yn tueddu i gynnwys gwybodaeth a chynnwys sy'n cynorthwyo dehongliad y darllenwyr o sut beth yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ymarferol. Roedd elfennau fel y rhestr wirio ar gyfer ysgolion a lleoliadau, yn ogystal â'r enghreifftiau o deithiau dysgu, yn cael eu croesawu ar y cyfan. Roedd y rhain yn rhoi cysylltiadau i'r darllenwyr rhwng elfennau mwy cysyniadol y cwricwlwm newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys rhai o'r egwyddorion addysgegol sy'n sail i'r dull gweithredu, a sut beth yw dysgu ac addysgu yn ymarferol.

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cynnig amrywiaeth o awgrymiadau ynghylch ble y gellid cryfhau'r canllawiau. Roedd y rhain yn tueddu i ymwneud â thair thema gyffredinol:

- **Naws:** gan gynnwys yn iaith yr adran agoriadol sy'n cyflwyno cyneiliau cyfreithiol a rhwymedigaethau statudol, yr oedd llawer o'r farn eu bod yn anodd eu deall. Roedd hyn yn wahanol i adrannau diweddarach, yr oedd llawer o'r farn eu bod yn hygyrch ac yn ennyn diddordeb.

- **Strwythur:** Teimlai rhai y gellid gwella'r ffordd y mae llywio drwy'r ddogfen a sut mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei nodi. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys mwy o ddefnydd o gyfeirio ar frig y ddogfen, gan gynnwys cyflwyno'r adrannau a allai fod yn berthnasol i wahanol gynulleidfaoedd, e.e. drwy wahaniaethu rhwng gwybodaeth sy'n cynorthwyo cynllunio a chydlynu, ac adrannau sy'n cynorthwyo dylunio a chyflawni. Mae hyn yn cyfleu'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd perthnasol sydd ag anghenion gwahanol, gan gynnwys ymarferwyr a'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog.
- **Manylion:** gan gynnwys mwy o ddyfnder mewn rhai manau i helpu ymarferwyr, uwch arweinwyr a rhanddeiliaid eraill i ddeall ac ymateb i'r cwricwlwm yn ymarferol. Roedd hyn yn cynnwys cysylltiadau mwy penodol rhwng Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac elfennau eraill o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, fel y pedwar diben a MDPH y Dyniaethau. Teimlai eraill y byddai elfennau ychwanegol fel cynnwys rhestr termau yn ddefnyddiol, gan gynnwys er mwyn dehongli rhai o'r cysyniadau neu'r syniadau sydd yn y cwricwlwm yn gywir, a'u cymhwyso.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at amryw ystyriaethau ymarferol yn ymwneud â'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ymarferol. Ymhlith eraill, roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd cyfeirio at hyfforddiant, cymorth a deunyddiau dwyieithog naill ai oddi mewn i'r canllawiau eu hunain neu'n fwy cyffredinol. Teimlwyd bod hyn yn bwysig o ran cynorthwyo'r holl ymarferwyr, uwch arweinwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill i ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ffordd effeithiol.

Roedd llawer yn teimlo bod y canllawiau drafft yn fan cychwyn gwerthfawr. Ystyriwyd ei bod yn bwysig cryfhau'r canllawiau drafft fel eu bod yn fwy hygyrch a manwl er mwyn eu helpu i ymgorffori Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliadau ac ysgolion yn effeithiol.

2.2 Cefndir

Bwriad y canllawiau drafft ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yw cynorthwyo'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliadau ac ysgolion ledled Cymru. Mae'n ceisio cyfleu cwrpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r disgwyliadau sy'n cael eu rhoi ar leoliadau ac ysgolion. Yn bennaf, nod y ddogfen yw llywio'r gwaith o ddatblygu maes llafur y cytunwyd arno'n lleol, a helpu ymarferwyr, awdurdodau lleol a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol i ddehongli a gweithredu ar y cwricwlwm newydd.

Cafodd y canllawiau drafft eu cyd-ddylunio gydag ymarferwyr ac mewn ymgynghoriad ag amrywiaeth eang o randdeiliaid. Mae datblygu'r Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o'r diwygiadau ehangach i addysg sy'n rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ysbryd y Cwricwlwm i Gymru, mae'r canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ceisio datblygu dull mwy integredig o ddysgu, ac mae'n rhoi mwy o gyfleoedd i ymarferwyr ymgorffori Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar draws y cwricwlwm. Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau.

I gael rhagor o wybodaeth, mae'r canllawiau drafft i'w gweld [fan yma](#).

2.3 Ymatebion

Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2021, gwahoddwyd ymatebwyr i gyflwyno eu barn. Cynigiwyd amrywiaeth o gyfleoedd i'r ymatebwyr gyflwyno eu barn a'u safbwyntiau ar y cynigion, gan gynnwys drwy gyflwyniadau ar-lein neu drwy e-bost, neu'n bersonol drwy gymryd rhan mewn gweithdai. Gwnaeth cyfanswm o 127 o ymatebwyr roi o'u hamser i fynegi'u barn mewn cyflwyniadau ffurfiol i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb mewn addysg a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Drwy gynnal dadansoddiad sensitifrwydd, gwelwyd bod yna 47 o ymatebion a oedd â thros 80 y cant o'u cynnwys union yr un fath â chynnwys cyflwyniadau eraill. Roedd yn ymddangos bod 12 ymateb arall wedi'u cydlynu nad oeddent yn cynnwys naratif union yr un fath yn yr ymatebion ond a oedd yn mynegi'r un gyfres o bwyntiau. Mae hyn yn awgrymu bod nifer uchel iawn o ymatebion ymgyrchu neu ymatebion wedi'u cydlynu wedi'u cyflwyno i'r ymgynghoriad (37 y cant).

Drwy gynnal dadansoddiad rhwydwaith, gwelwyd bod yr ymatebion ymgyrchu a'r ymatebion wedi'u cydlynu a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad yn tarddu o dri grŵp gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys 29 o ymatebion gan y rhai a oedd am weld dyngarwch yn fwy amlwg yn y canllawiau. Cafwyd 13 o ymatebion eraill union yr un fath gan rai a oedd am weld eglurder ynghylch cynnwys credoau anghrefyddol ac a oedd yn cefnogi rôl a chydabyddiaeth gryfach i gredoau crefyddol wrth addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion ymgyrchu a'r ymatebion wedi'u cydlynu yn tueddu i fynegi mwy o wrthwynebiad i deimlad a chyfeiriad cyffredinol y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Am wahanol resymau, roeddent hefyd yn tueddu i fod yn llai ffafriol ynglŷn ag eglurder a gwerth y canllawiau.

Gweithdai

Er mwyn deall barn a safbwyntiau ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach ymhellach, cynhaliwyd pum gweithdy i sbarduno trafodaeth fwy agored. Roedd y rhain yn cynnwys gweithdai gydag ymarferwyr ac uwch arweinwyr o leoliadau ac ysgolion cynradd ac uwchradd. Cynhaliwyd gweithdy arall gyda fforwm ffydd, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o grwpiau ffydd sydd â diddordeb mewn addysg. Gwnaeth cyfanswm o 28 o bobl roi o'u hamser i gymryd rhan mewn gweithdy. Mae barn a safbwyntiau'r cyfranogwyr wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad canlynol.

2.4 Natur Gynrychioliadol yr Ymatebwyr

Roedd y teimladau cyffredinol a fynegwyd gan yr ymatebwyr yn amrywio ar draws gwahanol ddulliau ymgysylltu. Mewn sgysiau mwy agored gydag ymarferwyr ac uwch arweinwyr, er enghraifft, roedd y cyfranogwyr ar y cyfan yn gadarnhaol ynglŷn â'r diwygiadau a'r canllawiau yn benodol. Mân sylwadau yn unig a wnaed ar sut y gellid gwella'r canllawiau, gan gynnwys o ran naws, manylder a strwythur. Er bod amrywiaeth ehangach o safbwyntiau wedi'u mynegi mewn ymatebion mwy ffurfiol (ar-lein a thrwy e-bost), roedd y teimlad cyffredinol yn fwy

cymysg gydag elfennau sylweddol o bryder, gan gynnwys ynglŷn â materion a godwyd mewn ymatebion ymgyrchu neu ymatebion wedi'u cydlynu.


Gallai'r fath amrywiaeth yng nghynnwys a theimlad yr adborth awgrymu bod gwahaniaethau ansoddol yng nghefnidiroedd a chymhellion yr ymatebwyr ar draws gwahanol ddulliau ymgysylltu, a rhwng yr ymatebwyr a'r boblogaeth gyffredinol o ymarferwyr ac ysgolion yn gyffredinol. Oherwydd y tebygolrwydd uchel o hunan-ddethol, gallai'r ymgynghoriad fod yn gorgynrychioli'r rhai sydd â barn gryfach ar y pwnc. O ganlyniad, gallai hefyd fod yn tangynrychioli barn rhai ymarferwyr ac ysgolion penodol a fydd yn dehongli ac yn cyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gyda'i gilydd, felly, dylid ystyried mai rhoi syniad o farn a safbwyntiau ymatebwyr ynglŷn â'r canllawiau a wna'r dadansoddiad hwn, yn hytrach na rhoi disgrifiad pendant o farn yr holl randdeiliaid ledled Cymru.

2.5 Cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr yn gyntaf am eu barn am eglurder y canllawiau drafft wrth gyfleu cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'i gyd-destun ym MDPH y Dyniaethau.¹

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd cyfanswm o 46 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft yn cyfleu cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn dda neu'n dda iawn:



Themâu Allweddol

Cwmpas a Rhesymeg Glir

¹ Pa mor dda mae'r canllawiau'n esbonio cwmpas CGM a'i gyd-destun ym maes y Dyniaethau?

Wrth ymhelaethu ar eu barn, thema allweddol a godwyd gan ymatebwyr oedd y canfyddiad bod y canllawiau drafft yn nodi gweledigaeth a phwrpas y cwricwlwm newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn glir. O'r safbwyntiau hyn, cyfeiriodd yr ymatebwyr yn aml at bwysigrwydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys cynorthwyo datblygiad moesol ac ysbrydol y dysgwyr. Adlewyrchwyd y thema hon mewn sgysiau mwy agored mewn gweithdai gydag ymarferwyr ac uwch arweinwyr. Roedd y cyfranogwyr yn aml yn mynegi canfyddiadau cadarnhaol o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Cwricwlwm i Gymru yn gyffredinol, gan groesawu teimlad cyffredinol y cynigion (gan gynnwys o ran ceisio symud oddi wrth gwricwla rhagnodol):

Mae'r canllawiau'n esbonio beth yw cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg [oddi mewn i'r] dyniaethau a'i bwysigrwydd yn ein hysgolion. [Mae'n] cyflwyno dadl [glir] am ei bwysigrwydd a pha bynciau sy'n rhan ohono.

Ymatebydd

Mae'r cwmpas wedi'i amlinellu'n dda. Mae'n rhoi manylion a hyblygrwydd i ysgolion ddehongli a chyflwyno.

Ymatebydd

Mae'r esboniad o ddefnyddio "lensys" ar gyfer dysgu yn fanwl iawn ac yn ddefnyddiol. Mae'r canllawiau'n rhoi esboniad o'r meddylfryd y tu ôl i'r datblygiadau hyn ac ystyr cysyniadau allweddol "crefydd", "gwerthoedd" a "moeseg" yng nghyd-destun datblygiadau'r cwricwlwm. Mae eglurder y canllawiau statudol yn ddefnyddiol o ran cynorthwyo adrannau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i drafod y newidiadau hyn gyda'r [uwch dîm arwain].

Ymatebydd

Rhagor o Fanylion

Nododd eraill eu bod yn teimlo y gellid cryfhau'r canllawiau drwy roi mwy o fanylion am gwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd hyn yn cynnwys rhagor o wybodaeth a chysylltiadau cliriach rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Cwricwlwm i Gymru yn ehangach, gan gynnwys y pedwar diben a MDPH y Dyniaethau. O'r safbwyntiau hyn, byddai rhagor o fanylion yn helpu ymarferwyr a rhanddeiliaid ehangach wrth ymwneud â dylunio a chynllunio'r cwricwlwm, a dysgu ac addysgu:

Er bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei drafod yn fanwl, nid oes cyfeiriad at y disgyblaethau eraill o fewn MDPH y Dyniaethau, sy'n golygu bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn dal i ymddangos yn faes sy'n "sefyll ar ei draed ei hun". Y mae ychydig o gysylltiadau â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac egwyddorion cynnydd, ond nid ydynt yn glir iawn. Gallai'r canllawiau roi gwell disgrifiad o'r hyn y mae dull gwrthrychol, beirniadol a lluosogaethol o ymdrin â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ei olygu.

Ymatebydd

[Mae'r canllawiau drafft] wedi'u hysgrifennu yn ysbryd y cwricwlwm newydd. Mae'r adran ar y lensys yn galonogol ac yn darparu cwmpas eang i athrawon Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth ddylunio eu cwricwlwm; fodd bynnag, bydd angen i athrawon fod yn ymwybodol y dylai'r cynnwys a'r addysgeg fod yn berthnasol ar gyfer pob oedran/cyfnod. Gellid gwneud hyn drwy gyfeirio neu gysylltu'n uniongyrchol â'r disgrifiadau dysgu ar gyfer MDPH y Dyniaethau.

Ymatebydd

Dyfnider yr Ymgysylltiad â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Teimlai rhai y gallai ehangu cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i gynnwys gwerthoedd a moeseg arwain at wanbau'r dysgu ac addysgu yn ymarferol. Gallai ehangder y cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gyflwyno heriau o ran annog ymarferwyr a dysgwyr i ymgysylltu mewn ffordd ystyrion. O'r safbwyntiau hyn, roedd pryderon y gallai ehangu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gyfyngu ar yr hyn y gellid ei gyflawni'n realistig yn yr ystafell ddosbarth neu'r lleoliad:

Mae'r cwmpas sydd wedi'i gyflwyno yn y canllawiau yn eang. Mae'n cynnwys agweddau yn y cwricwlwm nad ydynt yn cael eu haddysgu ar hyn o bryd. Mae aelodau'r [Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol] yn pryderu y gallai cynnwys hyn lastwreiddio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan arwain at gwricwlwm heb ddigon o ddyfnider wrth i athrawon geisio ymdrin â'r cyfleoedd, yr agweddau i'w cynnwys wrth ddylunio'r cwricwlwm, ac adran "lensys" y canllawiau.

Ymatebydd

Mae gormod o bwyslais ar y termau amrywiaeth yn y canllawiau, gan y dylai fod mai'r nod yw addysgu crefydd yn effeithlon ac effeithiol, nid boddi'r pwnc i'r graddau ei fod yn rhy arwynebol oherwydd yr ystod o bethau sy'n cael eu haddysgu.

Ymatebydd

Roedd agweddau pellach ar y thema o sicrhau ymgysylltiad ystyrion â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Er bod rhai ymatebwyr yn croesawu cynnwys credoau anghrefyddol, teimlai rhai y byddai mwy o eglurder a manylder yn y canllawiau yn werthfawr, yn fwy arbennig o ran ymgorffori argyhoeddiadau anghrefyddol yn fwy effeithiol mewn dysgu ac addysgu:

Dylai'r canllawiau gyfeirio'n glir at Signposts: Policy and Practice, gan Gyngor Ewrop, ar gyfer addysgu am safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.

Ymatebydd

Nododd eraill y gallai'r canllawiau drafft gyfeirio'n fwy penodol at rai argyhoeddiadau anghrefyddol, gan gynnwys dyngarwch, anffyddiaeth ac agnostigiaeth. O'r safbwyntiau hyn, byddai hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu trafod yn fwy ystyrion yn y dysgu ac addysgu:

Rwyf yn pryderu nad yw datgan bod gan rai crefyddau werthoedd penodol yn ddigon eang. Rhaid i'r maes llafur esbonio nad yw'r gwerthoedd hynny wedi'u cyfyngu i'r ffydd hynny, ond eu bod yn perthyn i lawer ffydd arall, nad ydynt efallai'n perthyn i'r diffiniad penodol o "grefydd" a grwpiau anghrefyddol, ac mae dyngarwch yn enghraifft. Heb enwi dyngarwch yn benodol, efallai na fydd y dysgwyr byth yn sylweddoli bod y fath athroniaeth yn bodoli.


Ymatebydd

2.6 Eglurder y Canllawiau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oedd y canllawiau drafft yn glir ac yn ddefnyddiol i ymarferwyr.²

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd cyfanswm o 46.2 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft yn aneglur neu'n aneglur iawn, ac roedd 40.7 y cant yn teimlo eu bod naill ai'n glir neu'n glir iawn:



Themâu Allweddol

Eglurder y Cyfathrebu a'r Adran Ddeddfwriaeth

Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo y gellid rhoi mwy o eglurhad i'r canllawiau yn canolbwyntio'n bennaf ar yr adran sy'n amlinellu cyneiliau cyfreithiol a

² A yw'r canllawiau, yn eu cyfanrwydd, yn glir, ac yn ddefnyddiol i chi yn eich rôl?

disgwyliadau statudol. Mewn sgysiau mwy agored, roedd ymarferwyr ac uwch arweinwyr yn tueddu i fynegi'r farn, er bod y canllawiau drafft yn nodi'r disgwyliadau a osodir ar ysgolion, ei bod yn anodd deall y cynseiliau cyfreithiol a'r disgwyliadau statudol a nodir yn y canllawiau. Teimlai rhai fod cywair ac iaith dechnegol fwy ffurfiol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac adran deddfwriaeth y canllawiau yn anodd eu dilyn. Nodwyd yn aml, wrth i ddarllenwyr symud drwy'r ddogfen tuag at naws fwy sgysiol, eu bod yn ei chael yn haws ei deall ac yn haws ymwneud â hi:

Rhaid bod gan ddarllenwyr lawer o wybodaeth flaenorol a'i statws yn y gyfraith er mwyn i'r canllawiau hyn wneud synnwyr — mae'n annhebygol o fod yn ddefnyddiol [naill ai] i lawer o ymarferwyr sy'n ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ysgolion [neu'r] rhai sy'n dylunio meysydd llafur cytunedig nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag addysgu neu arwain Addysg Grefyddol [...]. Nid yw [cyfeiriadau] anghywir ac a allai fod yn gamarweiniol at feysydd llafur y cytunwyd arnynt yn lleol sy'n 'argymell' yr hyn y dylid ei addysgu mewn Addysg Grefyddol / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn fuddiol. Ar hyn o bryd, y ffaith yw mai'r gofyniad cyfreithiol yw addysgu yn unol â'r maes llafur [y cytunwyd arno] yn lleol. Mae hyn yn newid i 'ystyried' [...]. Mae angen eglurder ynghylch beth mae'r newid hwn yn ei olygu mewn gwirionedd [i ysgolion a lleoliadau].

Ymatebydd

Roedd yr awgrymiadau ar ble y gellid cryfhau'r adran ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a deddfwriaeth yn cynnwys mwy o ddefnydd o iaith annhechnegol ac awgrym cliriach o sut mae'r disgwyliadau cyfreithiol yn effeithio ar wahanol randdeiliaid. Roedd rhai yn ystyried bod y canllawiau drafft yn ceisio siarad ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, gan gynnwys ymarferwyr ac uwch arweinwyr, awdurdodau lleol a Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog, ymhlith eraill. O'r safbwyntiau hyn, efallai y bydd gan bob cynulleidfa ddisgwyliadau gwahanol a byddai'n ddefnyddiol egluro'r rhain yn llawnach yn y canllawiau drafft.

Yn sail i rai o'r safbwyntiau hyn yr oedd dryswch ynglŷn â'r hyn y mae'r ymadrodd 'ystyried' yn y canllawiau drafft yn ei olygu'n ymarferol. I rai, gallai natur ansoddol y ddarpariaeth fod yn agored i ddehongliad neu gamddealltwriaeth:

Mae'r canllawiau'n aneglur/distaw ynglŷn â'r berthynas rhwng y canllawiau hyn a'r maes llafur cytunedig a beth yn union y mae'n rhaid i ysgolion ei 'ystyried'. Gellid ei ddarllen fel bod angen ystyried y canllawiau hyn, y canllawiau statudol ehangach, neu'r maes llafur cytunedig arno, gan roi tair dogfen wahanol i ysgolion a lleoliadau weithio'n unol â hwy.

Ymatebydd

Roedd rhai hefyd yn ystyried y byddai'n werthfawr cael eglurhad ynghylch rôl y maes llafur cytunedig arno a'r cwricwlwm newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a'r berthynas rhyngddynt, gan gynnwys deall perthnasedd y canllawiau o ran cynorthwyo ysgolion a lleoliadau. At hynny, gofynnodd rhai am eglurhad ynghylch y gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Gyda'i gilydd, teimlwyd bod yr awgrymiadau hyn yn

gwneud y canllawiau'n gliriach, yn enwedig o ran cyfleu rhai o ddisgwyliadau mwy technegol y cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar leoliadau ac ysgolion.

Rhagor o Fanylion

Y tu hwnt i'r adran ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a deddfwriaeth, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at elfennau eraill o'r canllawiau drafft y gellid ymhelaethu arnynt a'u hegluro. Fel y soniwyd yn flaenorol, cynigiodd ymatebwyr awgrymiadau gan gynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac elfennau eraill o'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn gyffredinol.

Yn sail i rai o'r safbwyntiau hyn yr oedd faint o wybodaeth sydd ynghylch y Cwricwlwm i Gymru yn ehangach. Barn a fynegwyd mewn sgysiau agored gydag ymarferwyr, yn enwedig ymarferwyr meithrin ac athrawon ysgolion cynradd, oedd gymaint o wybodaeth a chanllawiau sydd, ac roedd rhai'n teimlo ei bod yn anodd ymdopi â hyn. O'r safbwyntiau hyn, byddai cysylltiadau cliriach rhwng gwahanol ganllawiau yn werthfawr i'w helpu i lywio drwyddynt a deall yr holl ddogfennau, ac er mwyn ymgorffori Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ffordd gydlynol yn y cwricwlwm ehangach:

Teimlwn fod y canllawiau'n glir ac yn gymorth i ymarferwyr ac athrawon mewn lleoliadau a gyllidir nas cynhelir. Byddai cysylltu'r ddogfen honno gyda chanllawiau 'Cwricwlwm i leoliadau a gyllidir nas cynhelir' a'r 'Canllawiau Agor Llwybrau Cwricwlwm i Gymru' yn ei chryfhau ymhellach.

Ymatebydd

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at bwysigrwydd datblygu eglurder a dealltwriaeth nid yn unig drwy'r canllawiau drafft eu hunain ond hefyd drwy arweiniad, adnoddau a chymorth ehangach (gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus). O'r safbwyntiau hyn, dylid edrych ar y canllawiau drafft mewn rhwydwaith ehangach o adnoddau a gwybodaeth sy'n cynorthwyo ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill i ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

Bydd y fersiwn ryngweithiol ar-lein arfaethedig o'r ddogfen, a fydd yn defnyddio dolenni a "chwymplenni", yn ei gwneud yn hawdd llywio drwyddi a'i hintegreiddio yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn ehangach. Ni fydd yn cael ei ystyried yn ddogfen "annibynnol". Mae hyn yn bwysig iawn o ran sicrhau bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei integreiddio'n helaeth i ddull y cwricwlwm newydd a dyheadau'r pedwar diben. Mae'r canllawiau fel cyfanwaith yn agored iawn, gan ganiatáu i ymarferwyr a lleoliadau ddylunio eu cwricwlwm mewn ffyrdd sy'n gwneud synnwyr i'w dysgwyr. Mae'r un hyblygrwydd yn bresennol ar gyfer [Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol], wrth iddynt ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol i ysgolion yn eu hardal leol. Rydym yn rhagweld y bydd hefyd angen ychwanegu dogfennau ategol dros amser fel cymorth proffesiynol i ymarferwyr yn unol â rhaglen o ddatblygiad proffesiynol.

Ymatebydd

Rhestr Termau

Nododd rhai ymatebwyr hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys rhestr termau a ymddangosodd mewn fersiynau blaenorol o'r canllawiau ond sy'n cynnwys termau fel credoau anghrefyddol a chrefyddol, lensys, plwraliaeth a gwrthrychedd. O'r safbwyntiau hyn, gallai diffiniadau cliriach gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cyd-ddealltwriaeth oddi mewn i leoliadau ac ysgolion, ac ar eu traws. At hynny, nododd rhai y gallai fod yn werthfawr cynnwys rhestr termau sydd wedi ymddangos mewn fersiynau blaenorol o'r canllawiau drafft:

Fy rôl i yw fel aelod [awdurdod lleol] ar [Gynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol], [Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog] bellach. Credaf fod y Canllawiau drafft ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg eisoes yn nodi'n ddigonol [y dylai] addysgu fod yn feirniadol, yn wrthrychol ac yn lluosogaethol ac nid oes angen pwysleisio nac ailadrodd hyn. Fodd bynnag, efallai y byddai'n werth esbonio bod amcan [o'r fath] yn golygu ei fod yn cael ei addysgu mewn ffordd wrthrychol ac mewn ffordd feirniadol ond heb farnu, h.y. dyma'r hyn y mae'r grefydd neu'r gred hon yn ei gredu, ac mae lluosogaethol, yn syml, [yn golygu] lluosog a mwy nag un safbwynt.

Ymatebydd

Mae'r lensys yn helpu i esbonio'r prif gysyniadau, a gall y teithiau dysgu lywio meddwl pan fydd ysgolion yn dechrau cynllunio eu cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Fodd bynnag, mae angen eglurhad ychwanegol ar yr adrannau canlynol a gallant fod yn agored i gamddehongli: Ystyr Crefydd — roedd yr adran hon yn ddryslyd ac mae'r diffiniad o ystyr crefydd yn anghywir — [ac] Ystyr Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol. Mae'r enghreifftiau o gyfraith achosion yn ddryslyd ac ni fyddant yn gynorthwyo ymarferwyr wrth gynllunio a datblygu'r cwricwlwm.

Ymatebydd


2.7 Dylunio Cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Gofynnwyd i'r ymatebwyr wedyn a oeddent yn teimlo bod y canllawiau'n werthfawr o ran eu cynorthwyo i ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys wrth gynllunio'r cwricwlwm yn eu lleoliad neu eu hysgol.³

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd cyfanswm o 45 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau drafft yn cynnig gwybodaeth berthnasol neu berthnasol iawn i gynorthwyo ymarferwyr wrth ddylunio eu cwricwlwm ysgol:

³ A yw'r canllawiau'n cynnig gwybodaeth berthnasol i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm ysgol ar gyfer CGM?



Themâu Allweddol

Cefnogol a Pherthnasol

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cynnig canfyddiadau mwy cadarnhaol o'r farn bod y canllawiau drafft yn fan cychwyn defnyddiol wrth ystyried y cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mewn sgysiaau mwy agored, roedd ymarferwyr ac uwch arweinwyr yn troi at ganllawiau i ddarparu pwynt cyfeirio wrth gynllunio a dylunio'r cwricwlwm. O'r safbwyntiau hyn, roedd y canllawiau drafft yn werthfawr er mwyn deall hyd a lled a chwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. At hynny, mynegodd rhai bwysigrwydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn addysg, yn ogystal â chyffro ynghylch y pwyslais sydd yn y cynigion ar fwy o asiantaeth i'r ymarferwyr o ran dylunio'r cwricwlwm. Amlygwyd y materion hyn hefyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein:

Mae'r canllawiau'n dangos sut mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cefnogi'r pedwar diben. Mae'r lensys yn rhoi cyd-destunau clir i'r dysgu. Mae yna gysylltiadau clir i ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Caiff cynnydd ei archwilio. Caiff profiadau eu nodi i gefnogi'r dysgu. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at fan cychwyn i ysgolion ddechrau cynllunio eu cwricwlwm. Mae'r teithiau dysgu'n rhoi man cychwyn i drafodaeth fel enghraifft o ddull posibl o gynllunio a datblygu profiadau'r dysgwyr mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Ymatebydd

Pwysigrwydd Cymorth Ehangach

Ochr yn ochr â'r canllawiau drafft, roedd yr ymatebwyr hefyd yn tueddu i gyfeirio at bwysigrwydd cymorth ehangach er mwyn deall ac ymgorffori Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn effeithiol mewn dysgu ac addysgu. Roedd hyn yn cynnwys drwy ddatblygiad proffesiynol a deunyddiau ac adnoddau eraill a fyddai'n helpu lleoliadau/ysgolion a rhanddeiliaid eraill i gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

Mae'r adran Cynllunio eich Cwricwlwm yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i gynorthwyo ymarferwyr. Mae'r ffaith bod y lensys a'r teithiau dysgu enghreifftiol ar gyfer pob lens wedi'u cynnwys i'w groesawu, ac maent yn gefnogol iawn. Credwn ei bod yn hanfodol bod ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol yn gallu manteisio ar hyfforddiant o ansawdd uchel i sicrhau y gallant gyflwyno'r cwricwlwm newydd ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Ymatebydd

Rhagor o Fanylion

Unwaith eto, cyfeiriodd rhai ymatebwyr drachefn at bwysigrwydd rhagor o wybodaeth o fewn elfennau o'r canllawiau drafft. Roedd hyn (unwaith eto) yn cynnwys mwy o gysylltiadau ag agweddau eraill ar y Cwricwlwm i Gymru. Aeth rhai ymatebwyr ymhellach, gan gynnwys y rhai a deimlai y gallai mwy o ddisgresiwn lleol a diffyg gwybodaeth benodol yn y cynigion olygu bod yr addysgu'n amrywiol ar draws lleoliadau ac ysgolion. O'r safbwyntiau hyn, byddai mwy o fanylion yn werthfawr er mwyn sicrhau darpariaeth a dyfnder o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar draws pob lleoliad ac ysgol. Fel yr eglurodd un ymatebydd, byddai rhagor o fanylion yn rhoi sylfaen gadarn i ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill ar gyfer archwilio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

Rwyf yn gwbl ymwybodol bod sybsidiaredd yn un o bileri'r Cwricwlwm i Gymru; felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn ddoeth cynhyrchu canllawiau sydd mor anrhagnodol â phosibl mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn unol â phynciau eraill ym MDPH y Dyniaethau [...]. Er nad ydw i'n credu ei bod yn briodol i'r canllawiau statudol argymell rhestr o grefyddau ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol i gael eu haddysgu mewn ysgolion ar gamau penodol o addysg plentyn [...] dylai'r canllawiau, mewn ffordd fras iawn, esbonio ystyr a'r hyn sydd i'w ddisgwyl mewn perthynas ag addysgu'r 'prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru' [...]. Mae'n annheg gadael yr holl gwestiynau hynod ddadleuol hyn i ysgolion fynd i'r afael â nhw, weithiau gydag athrawon nad ydynt yn arbenigwyr yn ceisio gwneud eu gorau heb fawr o wybodaeth nac arbenigedd. Dylai'r canllawiau nodi seiliau rhesymegol posibl i arwain ysgolion yn eu dewisiadau ar gyfer cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn sicrhau bod gwahanol ffydd a bydolwg yn cael sylw teg, ac mae angen y canllawiau hyn ar gyfer [Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog] a [Chynadledau Meysydd Llafur Cytunedig] hefyd, i'w galluogi i ddylunio meysydd llafur priodol.

Ymatebydd

Mynegwyd y gallai'r diffyg manylion penodol hefyd olygu bod mwy o ddyblygu a mwy o waith i ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill:

Mae ail hanner y fframwaith yn darparu'r egwyddorion lefel uchel sy'n sail i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ond mae'n gadael llawer o waith i [Gynadledau Meysydd Llafur Cytunedig] ac ysgolion i drosi'r egwyddorion hynny'n gwricwlwm. Hyd yn oed o'u darllen yn ofalus, ochr yn ochr â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y

dyniaethau, mae'r fframwaith yn dal i fod braidd yn aneglur ynghylch sut beth yn ymarferol fyddai 'dyfnder, ehangder ac ansawdd dysgu priodol' (a nodir yn y pwynt bwled olaf ar t.22), y mae ysgolion i fod i'w gyflawni. Byddai mwy o enghreifftiau yn ddefnyddiol, yn enwedig enghreifftiau o gynnwys addas i'w addysgu er mwyn cyflawni'r canlyniadau dysgu a ddymunir.

Ymatebydd

2.8 Cryfhau'r Canllawiau

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gryfhau'r canllawiau drafft, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd unrhyw fylchau o ran gwybodaeth, yn ogystal ag unrhyw adrannau yr oeddent yn eu gweld yn arbennig o ddefnyddiol.⁴

Elfennau Defnyddiol

Cynigiodd ymatebwyr amrywiaeth eang o farn a safbwyntiau ar yr hyn yr oeddent yn ei weld yn ddefnyddiol yn y canllawiau.

Rhestr Wirio i Ysgolion a Lleoliadau

Mynegodd ymatebwyr, gan gynnwys ymarferwyr ac uwch arweinwyr mewn gweithdai, eu bod o'r farn bod y rhestr wirio yn werthfawr. Roedd y fformat hwn yn helpu'r darllenwyr i fyfyrion ar yr hyn yr oedd angen iddynt ei ystyried wrth ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys ar gyfer cynllunio a dylunio'r cwricwlwm.

Teithiau Dysgu Enghreifftiol

Yn yr un modd, cyfeiriodd yr ymatebwyr yn aml at werth esiamplau. Roedd llawer o'r farn eu bod wedi eu helpu i ddychmygu'r cwricwlwm yn ymarferol a meddwl am gefnogi cynnydd y dysgwyr. Roedd yr esiamplau'n cynnig enghreifftiau pendant o'r cysylltiadau rhwng gwahanol elfennau o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r cwricwlwm yn ehangach, gan gynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r disgrifiadau dysgu.

Lensys o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y dadansoddiad o'r lensys yn ddefnyddiol er mwyn cynorthwyo dyluniad y cwricwlwm ac ar gyfer dysgu ac addysgu. Fodd bynnag, mynegodd eraill nad oeddent wedi deall y cysyniad yn llawn yn y ffordd yr oedd wedi'i gymhwyso yn y canllawiau drafft.

⁴ Gan feddwl am bob adran o'r canllawiau, ydych chi'n teimlo bod unrhyw fylchau yn yr wybodaeth? Os felly, beth y dylid ei ychwanegu? A oes unrhyw adrannau sy'n arbennig o ddefnyddiol? Os felly, ym mha ffordd y maent yn ddefnyddiol ac i bwy?

Datblygiad Ysbrydol

Ystyriwyd bod hyn yn ddefnyddiol i ymarferwyr. Roedd rhai hyd yn oed yn mynegi y dylid rhannu'r adran hon yn ehangach ymysg ymarferwyr ar draws lleoliadau addysgol ac ysgolion, gan y teimlwyd bod goblygiadau ehangach iddi o ran cynorthwyo dysgwyr, nid yn unig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

Roedd yr adran ar ddatblygiad ysbrydol yn arbennig o dda a byddai o fudd i bawb mewn lleoliad addysg — a fyddai yna gysylltiad â hyn yn Hwb i'w rannu ar draws y cwricwlwm cyfan ac nid yng nghanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unig.

Ymatebydd

Elfennau Eraill

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at amrywiaeth o ffactorau neu elfennau eraill y credent eu bod yn ddefnyddiol. Roedd rhai ymatebwyr, er enghraifft, yn croesawu hyd cymharol fyr y ddogfen, yn ogystal â chywair iaith hygyrch y canllawiau drafft, yn enwedig yn yr adrannau diweddarach:

Ystyrir bod adran y blynyddoedd cynnar yn dda iawn o ran cywair ac esboniad; roedd agweddau yn yr adran yn ddefnyddiol ac yn fuddiol i'r amrywiaeth gyfan. Yn adrannau 3–5 mae'r iaith yn glir ac yn hawdd ei defnyddio. Bydd athrawon arbenigol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gyfarwydd â'r ieithwedd a'r derminoleg.

Ymatebydd

Gwybodaeth Ychwanegol

Lle y cyfeiriodd yr ymatebwyr at wybodaeth ychwanegol, roedd hyn yn tueddu i nodi eto yr awgrymiadau ynghylch mwy o fanylion ac eglurder mewn rhai elfennau o'r canllawiau drafft.

Rhestr Termau

Unwaith eto, nododd rhai ymatebwyr yn aml y byddai mwy o eglurder ynghylch rhai termau neu gysyniadau yn cael ei groesawu. Nododd rhai hefyd y byddent yn croesawu ailgyflwyno rhestr termau i'r canllawiau i helpu i'w dehongli.

Cysylltiadau â Chanllawiau Eraill

Cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at y ffaith y gallai fod yn werthfawr cynnwys cysylltiadau â chanllawiau eraill y Cwricwlwm i Gymru. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriadau a dolenni at Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r fframwaith ADY yn y canllawiau hyn. Byddai hyn yn helpu'r darllenwyr i wneud cysylltiadau ag elfennau neu ystyriaethau eraill wrth ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

Teimlwn fod y canllawiau'n esbonio cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn dda ac mae'r adran Addysg mewn Lleoliadau a Ariennir Nas Cynhelir yn werthfawr iawn o ran esbonio cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i awdurdodau lleol sy'n gweithio gydag ymarferwyr ac athrawon mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir. Byddai'n ddefnyddiol cyfeirio'n benodol at ganllawiau "Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir" yn yr adran hon, ac i'r gwrthwyneb, er mwyn gweld y canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu hadlewyrchu yng nghanllawiau "Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau a ariennir nas cynhelir" ac yng nghanllawiau Agor Llwybrau y Cwricwlwm i Gymru.

Ymatebydd

Rhagor o Adnoddau a Chymorth

Nododd rhai y byddai'n werthfawr cyfeirio, naill ai yn y canllawiau drafft neu'n fwy cyffredinol, at adnoddau a chymorth ehangach sydd ar gael mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a oedd yn cynnwys pwysigrwydd cyfleoedd datblygiad proffesiynol hygyrch o ansawdd da:

Mae'r rhestr wirio ar t.22 yn arbennig o ddefnyddiol i ysgolion ond rhaid iddo gael ei ategu gan ddigon o [ddatblygiad proffesiynol parhaus] ac adnoddau wedi'u paratoi ar gyfer ymarferwyr. Gwnaed newidiadau sylweddol i'r pwnc gan ychwanegu gwerthoedd a moeseg a strwythur y cwricwlwm y mae'n gorwedd ynddo. Gydag argyhoeddiadau athronyddol bellach yn rhan o'r cwricwlwm, rhaid gwneud [darpariaethau] i ddarparu adnoddau a hyfforddi ein hathrawon a rhaid i'r rhain gael eu creu yn y ddwy iaith gan unigolion profiadol, gwybodus.

Ymatebydd

Teimlwyd hefyd y byddai adnoddau ehangach, gan gynnwys deunyddiau dysgu posibl, yn werthfawr er mwyn cynorthwyo dysgu ac addysgu:

Teimlai ymarferwyr meithrin fod y teithiau dysgu yn cysylltu'n dda â'r hyn rydym yn ceisio ei ddysgu i'r plant drwy'r cwricwlwm a'r hyn y maent wedyn yn mynd ymlaen i'w wneud yn yr ysgol. Bydd paru'r enghreifftiau hyn â chysylltiadau ac adnoddau perthnasol i rymuso athrawon i gyflwyno'r trafodaethau a'r gweithgareddau hyn yn hyderus yn hanfodol wrth symud ymlaen.

Ymatebydd

Rhagor o Fanylion

Ar draws gwahanol elfennau o'r canllawiau drafft, nododd rhai ymatebwyr (unwaith eto) bwysigrwydd mwy o fanylion penodol. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o awgrymiadau, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:


- Cyfeirio at ysgolion arbennig neu eu helpu i ymwneud yn effeithiol â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.
- Rhagor o gyfeiriadau i atgoffa ymarferwyr i gynnwys y cyd-destun Cymreig mewn enghreifftiau o ffydd a chred.
- Rhagor o fanylion am sut y mae'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol am ystyried y maes llafur cytunedig.
- Deunydd enghreifftiol pellach ar gyfer y teithiau dysgu, yn enwedig mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.
- Eglurhad pellach ynghylch y confensiynau cyfreithiol sy'n cefnogi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys hawliau rhieni.
- Canllawiau pellach ar gefnogi ymgysylltiad rhieni mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

2.9 Dysgu ac Addysgu

Wrth weithredu ar y canllawiau, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod y canllawiau drafft yn werthfawr o ran cynorthwyo'r gwaith o gynllunio ac addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.⁵

Canfyddiadau Cyffredinol

Roedd cyfanswm o 41.4 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd y canllawiau drafft yn rhoi digon o wybodaeth i bob ymarferydd i gynorthwyo'r gwaith o gynllunio ac addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:



Mewn sgysiau mwy agored ac mewn ymatebion, roedd safbwyntiau mwy negyddol yn cael eu llywio gan bwysigrwydd rhagor o fanylion penodol yn y canllawiau drafft. Roedd sylwadau pellach yn cynnwys ystyriaethau ymarferol wrth ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a

⁵ A yw'r canllawiau'n cynnig digon o gefnogaeth i bob ymarferydd ar gyfer eu gwaith trefnu a'u haddysgu mewn perthynas â CGM?

Moeseg, yn enwedig ar gyfer ymarferwyr nad ydynt yn arbenigwyr sy'n llai cyfarwydd neu hyderus o ran arwain trafodaethau gyda dysgwyr.

Themâu Allweddol

Ymatebion Cadarnhaol

O'r 38.2 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn cynnig safbwyntiau mwy cadarnhaol, roedd y rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar bwysigrwydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y cwricwlwm. At hynny, roeddent yn tueddu i groesawu'r ffaith bod mwy o sybsidiaredd yn cael ei gynnig yn y cynigion:

Mae'n wych bod Cymru'n llai rhagnodol ac yn ymddiried yn ei hysgolion i addasu a datblygu eu cwricwlwm eu hunain yn seiliedig ar eu cyd-destun eu hunain gan ddefnyddio'r canllawiau hyn.

Ymatebydd

Rhagor o Fanylion

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cynnig safbwyntiau mwy negyddol yn tueddu i gyfeirio at bwysigrwydd rhagor o fanylion penodol yn y canllawiau, gan gynnwys mewn perthynas â'r hyn y dylid ei addysgu. O'r safbwyntiau hyn, roedd rhai'n disgwyl neu'n gwerthfawrogi agwedd fwy rhagnodol ar y cwricwlwm newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan gynnwys maes llafur manylach:

Rwy'n credu y gallai gynnig mwy o strwythur ar sut i ddarparu'r profiadau dysgu i ddysgwyr yn yr ysgol a sut i gynorthwyo plant gartref.

Ymatebydd

Teimlwyd bod gan y mater hwn oblygiadau ehangach, gan gynnwys rhoi gwell cymorth i ymarferwyr ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

Mae'r cyfraniad y bwriedir i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ei wneud i'r pedwar diben wedi'i nodi mewn ffordd eithaf rhethregol, ond nid oes enghreifftiau pendant i arwain [Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol], [Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig], ac ysgolion ar sut beth fyddai hyn yn ymarferol — mae'r enghreifftiau o deithiau dysgu yn rhy gyffredinol ac mae'n amheus a ydynt yn cyd-fynd â champau cynnydd ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn eu ffurf gyfredol.

Ymatebydd

Ystyriaethau Ymarferol

Yn unol â'r thema o ragor o fanylion penodol, cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at ystyriaethau ymarferol ehangach a allai effeithio ar allu ymarferwyr i ymwneud yn effeithiol â Chrefydd,

Gwerthoedd a Moeseg. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn sgysiau mwy agored lle'r oedd ymarferwyr mwy profiadol ac arbenigol yn teimlo bod ganddynt yr adnoddau, y ddealltwriaeth a'r hyder i ymwneud â'r canllawiau drafft. Roeddent yn pryderu y byddai angen cymorth pellach ar gyfer athrawon llai profiadol neu athrawon nad ydynt yn arbenigwyr.

Roedd heriau ymarferol eraill yn cynnwys amser cyfyngedig, nid yn unig o ran cynllunio ac ymwneud â'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ond hefyd ar gyfer addysgu. Teimlai rhai fod yr amserlen eisoes o dan bwysau ac y gallai hyn gyflwyno heriau yn hyn y gellid ei gyflawni'n rhesymol gyda'r dysgwyr.

2.10 Rhagor o Gymorth

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd am eu barn ar unrhyw gymorth ychwanegol y byddai ei angen arnynt er mwyn ymwneud yn llwyddiannus â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.⁶

Canfyddiadau Cyffredinol

Bron yn llwyr, roedd 94.9 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen cymorth ychwanegol i sicrhau bod y Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Dim ond dau ymatebydd a deimlai nad oedd angen cymorth ychwanegol.

Themâu Allweddol

Dysgu Proffesiynol

Un thema allweddol a godwyd gan ymatebwyr oedd pwysigrwydd hyfforddiant a chyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd da. O'r safbwyntiau hyn, dylai'r rhain fod ar gael i bawb, gan gynnwys hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer ymarferwyr, llywodraethwyr ac uwch arweinwyr nad ydynt yn arbenigwyr. At hynny, roedd y rhain yn cynnwys cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer pob lleoliad, gan gynnwys meithrinfeydd ac ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig:

Mae angen dysgu proffesiynol trylwyr a chadarn ar frys. Dylai pob athro y mae angen hyn arnynt gael eu rhyddhau o'r ysgol i'w dderbyn. Dylai'r canllawiau hyn fod yn bwynt cyfeirio ar gyfer y rhai sy'n darparu'r dysgu proffesiynol hwn, ond nid yw'n ddigonol at y diben yma fel ag y mae. Mae angen i'r dysgu proffesiynol hwn gael ei ymestyn i aelodau'r [Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol], arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, a holl athrawon ac arweinwyr y dyniaethau, yn ogystal â'r rhai sy'n gyfrifol yn benodol am addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Ymatebydd

Mae angen hyfforddiant helaeth ac arbenigol ar frys i arweinwyr ysgolion i'w helpu nid yn unig [i] sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu bodloni ond hefyd i egluro a rhoi

⁶ A oes angen cymorth ychwanegol (e.e. dysgu proffesiynol ac adnoddau) i sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus?

enghreifftiau o arferion da ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sy'n cyfeirio'n benodol at ffydd, cred ac arfer.

Ymatebydd

Deialog Broffesiynol

Ochr yn ochr â dysgu proffesiynol, cyfeiriodd rhai at rôl a phwysigrwydd posibl deialog broffesiynol o fewn ac ar draws lleoliadau ac ysgolion. Ystyriwyd bod dod o hyd i gyfleoedd i ddod at ei gilydd i rannu dysgu a syniadau yn werthfawr o ran meithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gallai hefyd annog mwy o gysondeb ar draws lleoliadau ac ysgolion:

Mae dysgu proffesiynol o ansawdd da ac adnoddau cysylltiedig yn hanfodol er mwyn gweithredu'r canllawiau hyn yn llwyddiannus. Bydd yn ddefnyddiol gweld enghreifftiau o'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu mewn ysgolion arloesi a chysylltu'n rheolaidd ag ymarferwyr ar draws ein hawdurdod / rhannau eraill o Gymru er mwyn sicrhau cysondeb.

Ymatebydd

Amser

Mewn sgysiau mwy agored gydag ymarferwyr ac uwch arweinwyr, mynegodd rhai mai cyfran gymharol fach o'r amserlen sydd wedi'i neilltuo ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y trefniadau presennol. Roedd hyn yn cyflwyno rhwystrau i'r hyn y gellid ei gyflawni'n realistig gyda dysgwyr. O'r safbwyntiau hyn, gallai diffyg amser fod yn rhwystr i gyflawni dyheadau'r cwricwlwm newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn fwy cyffredinol.

Adnoddau Allanol

Thema allweddol arall oedd pwysigrwydd adnoddau dysgu a deunyddiau i gynorthwyo'r dysgu. O'r safbwyntiau hyn, byddai adnoddau o ansawdd uchel yn werthfawr i gynorthwyo dysgu ac addysgu effeithiol. Ystyriwyd hefyd bod sicrhau ansawdd adnoddau yn werthfawr, ynghyd â rhoi cymorth i'w lledaenu:

Mae angen mapio a rheoli ansawdd adnoddau a chymorth allanol fel y gall ysgolion gael mynediad hawdd at yr hyn sydd ei angen arnynt. Hefyd, mae angen canllawiau ar rai o'r pynciau cyfredol mwy heriol a chysondeb ar draws MDPH ar y pwyntiau hyn — gallai rhai cynlluniau gwersi penodol ar Hwb fod yn ddefnyddiol yn y pynciau allweddol hyn. Mae'r cyd-destun rhyngwladol yn bwysig fan yma — nid deunyddiau a syniadau o Gymru'n unig y caiff disgyblion eu harchwilio. Mae archwilio sut mae normau'n newid dros amser a [lleoedd] ac archwilio lle nad yw perthynas / hawliau rhywiol yn cael eu cynnal yn ddomestig ac yn rhyngwladol [yn helpu] o ran meddwl yn feiriadol ac archwilio'r materion hyn.

Ymatebydd

Nid yw ysgolion yn gwybod beth nad ydynt yn ei wybod ac, o'r herwydd, mae perygl y gallai cysylltiadau da, perthnasol ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael eu hanwybyddu gan bobl nad ydynt yn arbenigwyr. Mae angen hyfforddiant i hybu dealltwriaeth o'r cwricwlwm, ond mae hefyd angen banc o adnoddau da y gall ysgolion eu defnyddio wrth iddynt nodi'r cynnwys a fydd yn rhoi enghreifftiau o'r cyfleoedd a'r lensys yn y canllawiau sy'n gysylltiedig â datblygu eu cwricwlwm eu hunain.

Ymatebydd

Cymorth yn y Gymraeg

Ffactor arall oedd pwysigrwydd deunyddiau, hyfforddiant a chymorth yn y Gymraeg. Mewn sgysiau mwy agored, trafododd un ymarferydd heriau datblygu a chyfieithu eu deunyddiau eu hunain er mwyn cynorthwyo'r dysgu ac addysgu. O'r safbwyntiau hyn, byddai sicrhau bod gwerslyfrau, adnoddau a deunyddiau eraill ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael yn Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd yn cael eu croesawu.

2.11 Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog

Gwahoddwyd yr ymatebwyr hynny a oedd yn ymateb fel aelodau o Gyngorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) i fynegi'u barn ar y canllawiau drafft.⁷

Datblygu Meysydd Llafur Cytunedig

Gofynnwyd i aelodau'r Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog yn gyntaf a oeddent yn teimlo bod y canllawiau drafft yn ddefnyddiol wrth ddatblygu Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig. Yn gyffredinol, teimlai'r ymatebwyr mai ychydig yn ddefnyddiol yn unig oedd y canllawiau drafft (40.4 y cant). Teimlai 30.9 y cant arall o'r ymatebwyr eu bod rywfaint yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

Cynorthwyo Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog

Gofynnwyd i aelodau'r Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog wedyn a oeddent yn teimlo bod y ddogfen yn ddefnyddiol yn gyffredinol. Cafwyd ymatebion tebyg, gyda 36.5 y cant o'r farn mai ychydig yn ddefnyddio yn unig oedd, a 34.1 y cant o'r farn ei bod rywfaint yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.

Themâu Allweddol

Wrth ddadansoddi'r safbwyntiau hyn, cyfeiriodd llawer at faterion tebyg i'r rhai a godwyd yn flaenorol yn yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys pwysigrwydd mwy o ddyfnder ac

⁷ Mae'r cwestiwn hwn wedi'i anelu at Awdurdodau a Chyngorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol. A yw'r canllawiau'n ddogfen ddefnyddiol ar gyfer datblygu cynadleddau meysydd llafur cytûn? A yw'r canllawiau'n ddogfen ddefnyddiol i Gyngorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol?

eglurder yn y canllawiau drafft i gynorthwyo datblygiad Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig ac yng ngwaith Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog yn ehangach.

Rhagor o Ddyfnder a Manylion

Fodd bynnag, daeth agweddau newydd i'r amlwg ar y thema gyffredinol o fwy o ddyfnder a manylder. Roedd y rhain yn cynnwys canllawiau mwy penodol ar sut y dylai Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ddatblygu Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig, gan gynnwys rhoi cymorth i leoliadau ac ysgolion:

Bydd yn sicr yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn, ond hoffem gefnogi ein hysgolion a'n hymarferwyr drwy roi mwy o eglurder a dealltwriaeth o beth yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'i ddiben/cyfraniad i MDPH y Dyniaethau a'r cwricwlwm newydd yn ei gyfanrwydd. Nid ydym am ddatblygu maes llafur cytunedig rhagnodol i'n hysgolion, ond hoffem gael dogfen sydd [nid yn unig] yn rhoi sylw i'r fframwaith a'r cwricwlwm ond sydd hefyd yn rhoi cymorth ac adnoddau ymarferol i'n hymarferwyr. Mae hon yn weledigaeth wirioneddol gennym wrth i ni symud i addysg ar ôl y pandemig ac ymwybyddiaeth y bydd angen cymaint o gymorth ymarferol ar ymarferwyr ag y gallwn ei roi wrth gyd-adeiladu eu cwricwlwm.

Ymatebydd

Roedd eraill yn teimlo y gellid darparu mwy o eglurder ar swyddogaeth a chyfrifoldebau Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog perthynas ag ysgolion:

Sut y bydd [Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol] yn gwybod sut i gynghori cymorth ar unrhyw gwynion a ddaw i mewn i'n hysgolion — nid oes cymorth ar lunio polisi ac arweiniad ar sut i ymateb. Teimlaf nad oes gan y canllawiau ddigon o eglurder ar sut i ddatblygu maes llafur y cytunwyd arno'n lleol i orwedd ochr yn ochr â'r canllawiau hyn. Sut beth yn ei hanfod fydd y maes llafur newydd cytunedig? Sut [mae] rhai nad ydynt yn arbenigwyr ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar y [Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol] yn defnyddio ac yn dehongli'r canllawiau? Prin yw'r cymorth o fewn y canllawiau ar gyfer [Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig] wrth iddynt ddatblygu'r maes llafur cytunedig cyntaf. A sut y gallant anelu at sicrhau cysondeb o ran safon a manylder ledled Cymru?

Ymatebydd

Roedd hyn yn gysylltiedig â galwadau pellach am eglurhad mewn perthynas â chyfansoddiad Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog, gan gynnwys camau i sicrhau eu bod yn cynnwys cynrychiolaeth gytbwys. O'r safbwyntiau hyn, byddai'n werthfawr archwilio'r canllawiau statudol arfaethedig sy'n ymwneud â chyfansoddiad Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol. Teimlwyd hefyd ei bod yn bwysig egluro priod rolau'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog, ochr yn ochr â phartneriaid eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

Bydd angen diffinio'r berthynas rhwng consortia [rhanbarthol], [awdurdodau lleol] a'u [Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol]. Os caiff y canllawiau eu mabwysiadu fel maes llafur cytunedig, ai cyfrifoldeb yr [awdurdod lleol] neu'r consortia yw sicrhau bod athrawon yn ei ddeall yng nghyd-destun eu lleoliadau eu hunain?

Cyfeiriad

Sicrhau Cysondeb

Gofynnwyd am eglurhad pellach hefyd ynghylch a ddylai'r Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog weithio tuag at sicrhau lefel o gysondeb ar draws Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig. O'r safbwyntiau hyn, roedd yr ymatebwyr eu hunain am i'r canllawiau roi mwy o fanylion penodol, gan gynnwys canllawiau pellach, er mwyn cynorthwyo i ddatblygu Cynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig. Teimlwyd bod hyn yn werthfawr i sicrhau bod 22 o ddulliau unigryw yn dod i'r amlwg ledled Cymru:

Mae angen cynnwys cyfeiriad at y maes llafur cytunedig (gan gynnwys ei statws) a'r angen am [Gynadleddau Maes Llafur Cytunedig] i'w hargymell i'r awdurdod lleol. Sut beth fydd maes llafur cytunedig? Ble gall [Cynadleddau] Meysydd Llafur Cytunedig gael arweiniad/cymorth i sicrhau cysondeb?

Ymatebydd

Dogfen ganllaw yn unig yw hon ac ni fyddai fawr o ddiben mabwysiadu hyn fel maes llafur cytunedig, gan nad yw'n cynnwys maes llafur na hyd yn oed fframwaith ar gyfer maes llafur. Nid oes sôn yma [am] ba grefyddau, ar wahân i Gristnogaeth (y cyfeiriad cyfreithiol), neu argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol y mae angen eu haddysgu a beth allai'r pwysoliadau posibl fod ar bob cam cynnydd.

Ymatebydd

2.12 Y Gymraeg

Yn olaf, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r ymatebwyr yn ymwneud â goblygiadau ac effaith y Canllawiau drafft ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar y Gymraeg.⁸ Roeddent yn cynnig amrywiaeth eang o ystyriaethau.

⁸ Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau CGM yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar: i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol? Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y canllawiau CGM: i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Effaith Gadarnhaol neu Ddim Effaith

Roedd thema allweddol yn cynnwys y farn y byddai'r canllawiau drafft naill ai'n cael effaith gadarnhaol neu ddim effaith amlwg ar y cyfleoedd i ymarferwyr a dysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg:

Credaf na fyddai'r Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg; i bob pwrpas, gallai gael effaith gadarnhaol, oherwydd oddi mewn i'r [Maes Dysgu a Phrofiad] cyfan, mae angen ystyried yr ardal leol a Chymru.

Ymatebydd

Pwysigrwydd Deunyddiau a Chymorth yn y Gymraeg

Un cafeat allweddol a gynigiwyd gan ymatebwyr oedd pwysigrwydd deunyddiau a chymorth yn y Gymraeg, gan gynnwys hyfforddiant. Ystyriwyd hefyd ei bod yn bwysig bod deunyddiau a chanllawiau Cymraeg ar gael, a hynny'n brydlon. Nodwyd yn rheolaidd y bu oedi wrth ryddhau deunyddiau Cymraeg:

Mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth, adnoddau a dysgu proffesiynol cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynhyrchu a'u rhannu yr un pryd â'r [rhai] cyfrwng Saesneg. Nid yw'n dderbyniol heddiw i [leoliadau] cyfrwng Cymraeg orfod aros o leiaf flwyddyn yn hwy na'u cymheiriaid cyfrwng Saesneg.

Ymatebydd

Ymgorffori'r Gymraeg mewn Canllawiau Drafft

Roedd awgrym mwy ymylol yn cynnwys y posibilrwydd o blethu'r Gymraeg yn fwy cadarn o fewn y deunyddiau a'r canllawiau Saesneg. Roedd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau dwyieithog a chynnwys rhestrau termau dwyieithog:

Gall y Gymraeg ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o grefydd a chred yn eu cynefin ac yng Nghymru, e.e. ystyr enwau lleoedd ledled Cymru [ac mewn] llenyddiaeth. Gallai rhestrau termau sy'n cynnwys yr ystyron Cymraeg a'r Saesneg yn ddwyieithog hybu gwell dealltwriaeth o'ch cynefin eich hun.

Ymatebydd

Yr Acronym RVE

Yn olaf, nododd ychydig ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y defnydd o'r acronym "RVE" yn y dogfennau Cymraeg yn anghywir. O'r safbwyntiau hyn, dylai'r acronym adlewyrchu'r Gymraeg:

Roedd yn siomedig (a dweud y lleiaf) bod enw'r pwnc wedi'i [nodi] yn fersiwn Gymraeg y canllawiau ac yn y cwestiynau ar yr ymgynghoriadau fel "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE)" ac nid "Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)". A oes rheswm penodol am hyn? Rhaid newid a chywiro hyn yn y canllawiau terfynol.

Ymatebydd

2.13 Casgliadau

Ar draws yr ymatebion, mewn cyflwyniadau ffurfiol a thrwy weithdai, cyflwynodd yr ymatebwyr amrywiaeth eang o farn a safbwyntiau. Roedd y rhain yn cynnwys barn am y canllawiau eu hunain, yn ogystal ag arsylwadau ehangach a oedd yn adlewyrchu dadleuon cyhoeddus ynghylch crefydd, addysg, cenedl, perthyn ac amlddiwylliannaeth.

Yn yr ymatebion, roedd yn amlwg bod yno sawl dehongliad gwahanol o'r canllawiau drafft eu hunain, y cyd-destun ehangach i ddatblygiad y canllawiau a'r cwricwlwm newydd, a'r goblygiadau i bobl ifanc ac i gymdeithas. Cafodd llawer o'r ymatebion eu llywio'n benodol ac yn ymhlyg gan safbwyntiau *a priori* neu athronyddol. Roedd y rhain yn cynnwys safbwyntiau gwahanol ar rôl y wladwriaeth mewn addysg grefyddol. Roeddent hefyd yn cynnwys dehongliadau gwahanol o union natur a hyd a lled hawliau a rhyddid yng nghyd-destun crefydd ac addysg. Roedd y safbwyntiau sylfaenol hyn, yn rhannol, yn llywio'r ffyrdd yr oedd yr ymatebwyr yn darllen ac yn dehongli'r canllawiau.

Cafwyd dadl, er enghraifft, ynghylch cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Roedd hyn yn cynnwys gwrthwynebiadau cysyniadol i union ddiffiniad a gweithrediad argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol. Roedd y canfyddiad bod y pwnc wedi'i ymestyn i gynnwys argyhoeddiadau athronyddol yn cael ei ystyried yn broblem gan rai. Roedd hyn yn cynnwys y canfyddiad y gallai ehangu'r ffocws i gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol wanhau'r sylw y dylid ei roi i grefyddau.

Ar y llaw arall, teimlai rhai ymatebwyr nad oedd y cydbwysedd wedi'i ganfod yn y canllawiau drafft rhwng credoau crefyddol ac anghrefyddol. Roedd hyn yn cynnwys safbwyntiau a oedd ystyried bod y dull gweithredu yn gyffredinol a'r canllawiau yn rhoi rôl rhy amlwg i gredoau crefyddol. Gan fynd ymhellach, mynegodd rhai y farn bod unrhyw ddylanwad crefyddol yn amhriodol mewn cyd-destun addysgol.

Barn am y Canllawiau

Yn gyffredinol, roedd llawer o ymatebwyr yn ystyried bod y canllawiau drafft yn fan cychwyn gwerthfawr. Mewn sgysiau mwy agored gydag ymarferwyr ac uwch arweinwyr, roedd cefnogaeth gyffredinol i deimlad a chyfeiriad cyffredinol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r cwricwlwm cyfan. Roedd hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar y gydnabyddiaeth sydd yn y cwricwlwm i ymarferwyr ac ysgolion o ran llunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mynegodd rhai gyffro ynglŷn â'r cwricwlwm newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ei ystyried, er enghraifft, yn gyfle i adnewyddu a bywiogi'r cwricwlwm i'w dysgwyr. Mynegwyd y teimladau hyn hefyd drwy'r ymatebion ar-lein.

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at amrywiaeth o feysydd lle'r oeddent yn teimlo bod y canllawiau drafft yn ddefnyddiol. Roedd y rhain yn tueddu i gynnwys gwybodaeth a chynnwys sy'n helpu'r darllenwyr i ddehongli sut beth yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ymarferol. Roedd elfennau fel y rhestr wirio i ysgolion a lleoliadau, yn ogystal â'r enghreifftiau o deithiau dysgu, yn cael eu croesawu ar y cyfan. Roedd y rhain yn rhoi cysylltiadau i ddarllenwyr rhwng elfennau mwy haniaethol a chysyniadol y cwricwlwm newydd a sut beth yw dysgu ac addysgu ar lawr gwlad.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at amrywiaeth o ystyriaethau ehangach yn ymwneud â'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ymarferol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar bedwar mater gwahanol ond rhyng-gysylltiedig:

1. Y cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei ddehongli a'i weithredu'n wahanol oddi mewn i ysgolion a lleoliadau ac ar eu traws.
2. Y posibilrwydd y gallai Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei ddehongli a'i addysgu mewn ffordd rhy syml, gan ganolbwyntio ar drosglwyddo corff estynedig o wybodaeth (e.e. crefyddau'r byd a safbwyntiau anghrefyddol). Gallai dull o'r fath danseilio ymgysylltiad mwy beirniadol â'r deunydd, gan gynnwys, er enghraifft, wrth gynorthwyo hermeniwteg.
3. Gallu'r gymuned addysgol yn ei chyfanrwydd i ymwneud â'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn enwedig y rhai nad ydynt efallai mor hyderus yn eu gwybodaeth a'u gallu i addysgu'r pwnc yn effeithiol.
4. Y pwyslais cyfyngedig ar addysg grefyddol a'r flaenoriaeth gyfyngedig sy'n cael ei rhoi iddi, gan gynnwys o ran adnoddau ac amser, oddi mewn i'r trefniadau presennol. Gallai'r rhain achosi rhwystrau i gyflawni dyheadau'r cwricwlwm newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn fwy cyffredinol.

Roedd ffocws llawer o ymatebwyr ar y cwricwlwm ar waith yn awgrymu bod llawer yn mynd y tu hwnt i'r ddogfen ei hun i ystyried beth oedd y cwricwlwm yn ei olygu iddynt hwy, eu cydweithwyr ac yn ymarferol. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn awgrymu bod llawer o ymatebwyr yn ystyried y rhwystrau posibl i wireddu dyheadau'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys o ran cynorthwyo newid addysgegol a chwricwlaidd sy'n gadarnhaol ac effeithiol.

Roedd y safbwynt ymarferol hwn yn tueddu i lywio barn a safbwyntiau ar y canllawiau drafft, yn enwedig ymysg ymarferwyr ac uwch arweinwyr. O'r ymatebion, roedd yn ymddangos bod yna gontinwmm rhwng y rhai a oedd yn croesawu hyblygrwydd yn y dull gweithredu ac yn fwy tebygol o ystyried bod y canllawiau'n ddefnyddiol a'r rhai a oedd am i'r canllawiau ddarparu meysydd llafur mwy strwythuredig. Roedd y rhai a oedd am weld rhagor o fanylion penodol yn tueddu i ystyried nad oedd y canllawiau mor ddefnyddiol.

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau ynglŷn ag a ellid cryfhau'r canllawiau drafft yn ymwneud â thair thema gyffredinol a rhyng-gysylltiedig:

- **Naws:** gan gynnwys yn iaith yr adran agoriadol sy'n cyflwyno cynseiliau cyfreithiol a rhwymedigaethau statudol, yr oedd llawer o'r farn eu bod yn anodd eu deall. Roedd hyn yn wahanol i adrannau diweddarach, yr oedd llawer o'r farn eu bod yn hygyrch ac yn ennyn diddordeb.

- **Strwythur:** Teimlai rhai y gellid gwella'r ffordd y mae llywio drwy'r ddogfen a sut mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei nodi. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys mwy o ddefnydd o gyfeirio ar frig y ddogfen, gan gynnwys cyflwyno'r adrannau a allai fod yn berthnasol i wahanol gynulleidfaoedd, e.e. drwy wahaniaethu rhwng gwybodaeth sy'n cynorthwyo cynllunio a chydlynu, ac adrannau sy'n cynorthwyo dylunio a chyflawni. Mae hyn yn cyfleu'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn effeithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd perthnasol sydd ag anghenion gwahanol, gan gynnwys ymarferwyr a'r Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog.
- **Manylion:** gan gynnwys mwy o ddyfnder mewn rhai manau i helpu ymarferwyr, uwch arweinwyr a rhanddeiliaid eraill i ddeall ac ymateb i'r cwricwlwm yn ymarferol. Roedd hyn yn cynnwys cysylltiadau mwy penodol rhwng Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac elfennau eraill o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, fel y pedwar diben a MDPH y Dyniaethau. Teimlai eraill y byddai elfennau ychwanegol fel cynnwys rhestr termau yn ddefnyddiol, gan gynnwys er mwyn dehongli rhai o'r cysyniadau neu'r syniadau sydd yn y cwricwlwm yn gywir, a'u cymhwyso.

Awgrymodd llawer o ymatebwyr y byddai mynd i'r afael â'r materion hyn yn helpu ymarferwyr, lleoliadau ac ysgolion i ymwneud yn fwy effeithiol â'r cwricwlwm newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

wavehill™

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

01545 571711

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

